

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 12fed o Ionawr 2026 am 7.30yh yng Nghanolfan Gymunedol Trelech.

Cynghorwyr yn bresennol: Alyson Harries (Cadeirydd), Andrew Jones, , Dyfed Davies, John Phillips, Ann Sillars & Eirian Howells

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Ambrose Lewis, Linda Davies, Arwyn Jones, Derrick Harries ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Croesawodd Alyson Harries pawb i'r cyfarfod gan nodi fod nifer o Gynghorwyr yn absennol oherwydd fod y cyfarfod wedi cael ei ohoirio am wythnos oherwydd yr eira ac fod ganddynt ymrwymïadau eraill.
3. **Datgan Buddiannau:**
Dim.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 3ydd o Dachwedd 2025 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5.Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Roedd Cyfreithwyr Redkite wedi danfon ymalen ebost wrth cyfreithwyr perchnogion Lleine. Trafodwyd cynnwys yr ebost a oedd yn cynnwys pwyntiau gwrthgyferbyniol mewn manylder ac fe'u gwrthbrofwyd. Roedd pawb yn cytuno ei fod yn hanfodol fod y Cyngor Cynunedu'n cadw'r mynediad tuag at Rhoscrugebolion. Cytunwyd byddai'r clerc yn cysylltu gyda'r cyfreithwyr yn nodi fod angen mynediad llawn, heb unrhyw gyfyngiadau i'r Cyngir a tenantiaid i'r tir. Os na byddai'r cytundeb yma yn cael ei dderbyn cytunwyd mynd a'r mater i'r Llys.
- Nid oedd unrhyw gwaith atgyweirio heolwedd wedi eu gwneud ar rhiw Glaspant, Velindre, Capel Ffynnonbedr na Castellmawr ond roedd gwaith atgyweirio wedi dechrau rhwng Mainwan ac y Ficerdy. Byddai'r clerc yn gofyn i'r Cynghorydd Sir Jean Lewis am ddiweddariad.
- Diweddarodd y clerc y Cynghorwyr fod perchenog Closygawnen yn anffodus wedi marw ac felly ni fyddai gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn y dyfodol agos. Gofynwyd i'r Cyngor Sir cael eu hysbysu fod gordyfiant yn amharu ar y droedffordd.
- Roedd parc Trelech wedi derbyn cynnig amodol o grant am £25000 wrth Llywodraeth Cymru ond roedd angen iddo dderbyn arian cyfatebol. Roedd yn ofynnol i'r grant cael ymateb erbyn y 9fed o Ionawr ac gan fod y cyfarfod wedi cael ei ohirio am wythnos, roedd y Cynghorwyr Cymuned wedi cytuno yn unigol gyda'r clerc byddai'r Cyngor Bro yn barod i roi'r arian cyfatebol.
- Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i lês y parc cael ei drosglwyddo o Canolfan Gymunedol Trelech i'r Cyngor Bro. Yn ei absenoldeb, roedd Ambrose Lewis mofyn nodi nad oedd yn cytuno gyda'r Cyngor yn

cymryd cyfrifoldeb am y parc. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd edrych mewn i gymryd lês y parc drosodd.

6. Gohebiaeth

a. Y swm priodol dan Adran (137)(a) o'r Llywodraeth Lleol 1972 oedd £11.60 i bob etholwr am 2026-27.

b. Roedd y clerc wedi derbyn 420 o goed cychwynnol wrth Yr Ymddiridolaeth Coedwigaeth ac roeddent wedi cael eu plannu ar clawdd ar Rhoscrugebolion.

c. Darllenwyd datganiadau yr Addewid Parch a Chwrteisi a cytunwyd pob un ohonynt felly ymrwymwyd i dderbyn yr Addewid.

Ch. Ceisiadau Cynllunio

PL/10162 – Codi storfa slyri – Panthowell, Penybont, SA33 6QN

PL/10097 - cadw gwaith presennol – Tygwyn, Meidrim, SA33 5PG

PL/10096 – 2 sied defaid – Maesmebyd, Trelech, SA33 6SD

PL/10312 – Annedd amnewid – Cilhir Isaf, Meidrim, SA33 5PX

d. Roedd Cyfreithwyr Redkite wdi danfon anfoneb o £600 am y gwaith parthed mynediad i Rhoscrugebolion. Roedd £198 mewn llaw ar y cyfrif, felly cytunwyd i dalu'r gwedddill o £402.00.

dd. Roedd anfoneb am £333.60 wedi ei dderbyn wrth y Cyngor Sir am amnewid y goleuadau stryd. Cytunwyd i'w dalu.

7. Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £834.28

Dosbarthwyd mantolen Cyllideb v Gwariant hyd at 31/12/25. Trafodwyd a cytunwyd y manylion.

8. Cyllideb 2026-27 gan gynnwys Praesept a Cyflog y Clerc

Dosbarthwyd cyllideb drafft gan y clercar gyfer 2026 – 27, fe'i drafodwyd, addaswyd a derbyniwyd. Cafodd Cyflog y Clerc ei ohirio tan y cyfrafod blynyddol pan byddai'r Cynghorwyr i gyd yn bresennol. Cytunwyd fod y Praesept yn aros yn ddim.

Unrhyw Fater Arall

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.05yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 2ail o Fawrth 2026.